Bywha dy waith, O Arglwydd mawr

Caneuon Ffydd: Rhif 243

Bywha dy waith, O Arglwydd mawr,
dros holl derfynau'r ddaear lawr
drwy roi tywalltiad nerthol iawn
o'r Ysbryd Glân a'i ddwyfol ddawn.

Bywha dy waith o fewn ein tir,
arddeliad mawr fo ar y gwir;
mewn nerth y bo'r Efengyl lawn,
er iachawdwriaeth llawer iawn.

Bywha dy waith o fewn dy dŷ
a gwna dy weision oll yn hy:
gwisg hwynt â nerth yr Ysbryd Glân,
a'th air o'u mewn fo megis tân.

Bywha dy waith, O Arglwydd mawr,
yn ein calonnau ninnau nawr,
er marwhau pob pechod cas,
a chynnydd i bob nefol ras.

MINIMUS, 1808–80

MYFYRDOD

Mae angen tipyn o ddewrder heddiw i ddweud fel y Salmydd yn Salm 96: 'Y mae'r Arglwydd yn frenin' (adn. 10), a gwneud hynny, fel mae'n ein hannog ni, 'ymhlith y cenhedloedd'. Sôn am y bobl oedd yn byw o'u cwmpas oedd y Salmydd, y rhai nad oedden nhw'n adnabod Duw nac yn gwybod nemor ddim amdano. Eto y rheiny oedd angen clywed ei fod yn frenin a bod y byd yn sicr yn ei law.

Gwaith anodd ydy hyn i ni heddiw, fel i bobl Dduw ym mhob oes, gyda chymaint o bethau'n milwrio yn ein herbyn ac yn cyhoeddi fel arall.

Hanes o ddewrder ac o aberth ac o gyffro ydy un John Roberts, a gwnaeth ef gymaint â neb i gyhoeddi Duw yn frenin ac i

hyrwyddo'i deyrnas, gan noddi a threfnu a hwyluso'r gwaith o sefydlu Cenhadaeth Dramor y Methodistiaid Calfinaidd yng ngogledd-ddwyrain India ar y pryd, gwaith a gafodd ei fendithio'n helaeth ac sydd wedi rhoi bod i eglwys rymus a byw mewn llawer gwlad, ac yn enwedig y rhan honno o India lle canolbwyntiwyd y rhan helaethaf o'r ymdrechion. Bu'n ysgrifennydd y Genhadaeth hon am chwe blynedd ar hugain, ac yn fuan wedi achlysur anfon y cenhadwr cyntaf i Fryniau Casia, sef Thomas Jones, Aberriw, ym 1840, yr ymddangosodd yr emyn gorfoleddus, cenhadol hwn o'i eiddo yn *Y Drysorfa*.

Fe ddatgan yn blaen mai Duw sydd ben, yn frenin ar y byd yn gyfan. Ef piau'r ddaear a'i waith ef sydd i'w gyflawni ynddi: 'Bywha dy waith, O Arglwydd mawr, dros holl derfynau'r ddaear lawr.' Fe ofynna am ddewrder i gael cydweithio â Duw yn nyfodiad ei deyrnas yn y trydydd pennill: 'gwna dy weision oll yn hy'. Er mai bychan ydy'n cyfraniad ni yn nhrefn pethau, ac fe'i galwai John Roberts ei hun yn 'Minimus' – yr un lleiaf, mae Duw yn ein defnyddio ni yn ei waith ac yn barod i gydweithio â ni, gan roi ei ddewrder a'i hyfdra ef ei hun i'w weision – eu gwisgo 'â nerth yr Ysbryd Glân', a rhoi ei Air i losgi y tu mewn iddyn nhw 'megis tân'.

Pobl gyda thân yn eu boliau go iawn mae Duw eu hangen! Ac yn yr emyn crefftus hwn mae Minimus yn dod â ni i lawr at y galon unigol. Ar ôl gofyn i Dduw fywhau ei waith drwy'r byd i gyd, fe leiha'r cylch wrth iddo erfyn dros ein gwlad ein hunain a'n heglwys. Ond mae'n rhaid i'r gwaith ddechrau yn ein calonnau ni ein hunain yn gyntaf: 'Teyrnas Dduw o'ch mewn chwi y mae' (Luc 17:21, BWM), meddai Iesu wrth y Phariseaid diddeall. Mae'r gwirionedd hwn yn un sylfaenol yn y Testament Newydd ac mae derbyn Iesu – Brenin y brenhinoedd – yn golygu derbyn ei deyrnasiad brenhinol drosom ni, nid yn unig yn ein bywydau a thros ein gwaith, ond drwy ein bywyd a thrwy ein gwasanaeth a'n cariad. Dim ond wrth ddechrau gyda ni ein hunain y gallwn gyhoeddi bod Duw yn Frenin wrth y byd yn gyfan.

GWEDDI

Arglwydd Iesu, fy Mrenin i, rwy'n gofyn am gymorth dy Ysbryd Glân yn fy mywyd i, er mwyn rhoi imi'r dewrder hwnnw sydd ei angen arnaf i dy gyhoeddi di yn Frenin 'dros holl derfynau'r ddaear lawr', ac yma yn y lle yr wyt ti wedi fy ngosod i dystio iti. Er mwyn y Brenin Iesu. Amen.